Gwyddoniaeth Pysgodfeydd a Chadwraeth

DIWEDDARIAD GWYDDONOL

Holiadur Gwybodaeth Pysgotwyr: Rhagfyr 2014

Julia Pantin

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Ysgol Gwyddorau Eigion, Coleg y Gwyddorau Naturiol, Prifysgol Bangor

Funded by:

Y Gronfa Pysgodfeydd Ewropeaidd:
Buddsoddi mewn Pysgodfeydd Cynaliadwy
European Fisheries Fund:
Investing in Sustainable Fisheries

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Holiadur Gwybodaeth Pysgotwyr

Dull

Rydym wedi cwblhau holiaduron gwybodaeth pysgotwyr gyda 64 o bysgotwyr ar draws Cymru, sy'n cynnwys data ar gyfer 78 o longau. Mae'r data yn trafod 33 o longau yng Ngogledd Cymru, 16 o longau yng Nghanolbarth Cymru a 29 o longau yn Ne Cymru. Mae hyn yn hafal i 9944.36 km^2 o foroedd Cymru yn cael eu defnyddio i bysgota.

Canlyniadau rhagarweiniol

Mae'r graffiau canlynol yn sampl o'r wybodaeth a gafwyd o'r holiadur:



Lefelau daliadau blaenorol, agosrwydd i'r porthladd a thywydd/cysgod oedd yr atebion a glywyd amlaf pan ofynnwyd i bysgotwyr pam eu bod yn pysgota mewn lleoliadau penodol. Roedd hyn yn gyson ymhlith y pysgotwyr i gyd.



Sylwyd ar ostyngiadau yn nigonedd yr wyth rhywogaeth; fodd bynnag, sylwyd hefyd ar gynnydd yn y digonedd gan lawer o bysgotwyr o ran cimychiaid a chregyn Aberffro. Nid oes yr un pysgotwr wedi sylwi ar gynnydd yn y digonedd o gorgimychiaid, cwiniaid neu'r cregyn moch mwyaf.



Nid yw'r rhan fwyaf o bysgotwyr wedi sylwi ar unrhyw newidiadau ym maint y rhywogaethau ym mhob un o'r wyth rhywogaeth. Mae rhai pysgotwyr, serch hynny, wedi gweld fod maint cimychiaid, draenogiaid y môr a chrancod hirgoes wedi gostwng.



Gofynnwyd i bysgotwyr os oedd unrhyw ardal ble roedd gwrthdaro gydag eraill oedd yn defnyddio'r môr, a nodwyd 65 ardal o wrthdaro sy'n golygu 3278.12 km^2 o foroedd Cymru. Y gwrthdaro amlycaf i bysgotwyr â gêr sefydlog oedd gyda'r rhai oedd yn defnyddio cewyll fel hobi a gyda physgotwyr o'r un rhywogaeth. Y prif broblemau ynglŷn â gwrthdaro gyda'r rhai oedd yn pysgota fel hobi yw eu bod yn pysgota mwy o gewyll nag y mae eu trwydded yn ei ganiatáu, nid ydynt yn cydymffurfio â deddfwriaeth maint glanio lleiaf, maent yn codi cewyll pysgotwyr masnachol ac yn dwyn cewyll masnachol. Mewn rhai ardaloedd, bu'r gwrthdaro hwn yn bodoli ers dros 20 mlynedd.

Mae pysgotwyr â ger symudol yn ymddangos fel pe baent yn dod wyneb yn wyneb â llai o wrthdaro defnydd morol, a dim ond yn nodi rheoliadau cadwraeth a physgotwyr o'r un rhywogaeth fel gwrthdrawiadau. Mae'r gwrthdaro cadwraeth yn ymwneud ag ardaloedd caeedig cregyn bylchog ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) lle gwaherddir pysgota cregyn bylchog.

Yn y dyfodol

Byddwn yn parhau i gynnal holiaduron gyda'r gobaith o lenwi rhai o'r bylchau daearyddol ac yn cyrraedd sampl mwy cynrychioladol o'r gwahanol alwedigaethau pysgota. Rydym yn edrych yn arbennig i gynnal holiaduron gyda mwy o bysgotwyr cregyn bylchog a physgotwyr ym Môn, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Os ydych yn fodlon cael eich cyfweld neu'n adnabod rhywun arall fyddai'n fodlon gwneud, wnewch chi gysylltu â Julia Pantin drwy ffonio (01248 382607) neu e-bostio (j.pantin@bangor.ac.uk). Mae cyfle gan bawb sy'n ateb yr holiadur i ennill Trywsus *Bib and Brace Guy Cotten* neu danysgrifiad i "*The Fishing News*".